Pecyn Gwybodaeth Swydd Gwag

Cydlynydd Gwirfoddolwyr a Digwyddiadau

Er mwyn cefnogi'n gwaith gyda'n gwirfoddolwyr, mae Sefydliad DPJ yn chwilio am unigolyn trefnus, hyblyg a brwdfrydig i ymuno â'n tîm staff bach. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ein helpu i yrru ein helusen yn ei blaen drwy gefnogi, cydgysylltu a datblygu'n gwirfoddolwyr a sicrhau bod gennym bresenoldeb ym mhob digwyddiad allweddol, naill ai gan wirfoddolwyr neu drwy fynychu ei hun os nad oes unrhyw wirfoddolwyr ar gael i wneud hynny. Rôl cydlynu gwirfoddolwyr yw'r rôl hon yn bennaf.

Am Sefydliad DPJ

Sefydlwyd Sefydliad DPJ ym mis Gorffennaf 2016 yn dilyn marwolaeth Daniel Picton-Jones. Nod Sefydliad DPJ yw cefnogi'r rhai yn y sector amaethyddol sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael. Ni chafodd Daniel ddiagnosis ar gyfer ei iechyd meddwl, ac roedd nifer na welodd ei iechyd meddwl. Roedd Daniel yn gontractwr amaethyddol, roedd yn rhan o sector â'r gyfradd uchaf o hunanladdiad. Penderfynodd ei weddw Emma greu'r sefydliad i gefnogi'r sector iechyd meddwl ffermio, i'r rhai sy'n teimlo'n union fel y gwnaeth Daniel, gan roi'r cymorth nad oedd yn gwybod sut i'w gael.

Mae'r elusen iechyd meddwl mewn amaethyddiaeth wedi tyfu ac mae'n cwmpasu Cymru gyfan gyda phob maes cymorth. Mae Sefydliad DPJ yn gweithio gyda sefydliadau blaenllaw yn y sector gan gynnwys NFU Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru, CLA Cymru, CFfI, milfeddygon a Llywodraeth Cymru i helpu i ddarparu gwasanaeth hygyrch a hyblyg.

Trwy gwnsela a hyfforddiant gallwn gefnogi iechyd meddwl ffermwyr a phobl sy'n gweithio mewn cymunedau gwledig.

Am ein Gwirfoddolwyr

Mae Sefydliad DPJ yn cefnogi pobl mewn cymunedau gwledig sy'n dioddef iechyd meddwl gwael, yn enwedig dynion yn y sector amaethyddol. Mae'r Sefydliad yn anelu at chwalu'r stigma sydd o amgylch iechyd meddwl ac yn darparu gwasanaethau cynnal, megis "Rhannwch Y Baich" i drigolion cymunedau gwledig. Mae gwirfoddolwyr yn hanfodol i waith Sefydliad DPJ ac, heb ein gwirfoddolwyr ardderchog, ni fyddai modd inni weithredu.

Un o amcanion allweddol Sefydliad DPJ yw cynyddu ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl ac herio'r stigma sydd o gwmpas iechyd meddwl gwael. Un ffordd o wneud hyn yw drwy ddefnyddio'n rhwydwaith o Hyrwyddwyr Rhanbarthol gwirfoddol. Gwirfoddolwyr yw'r Hyrwyddwyr Rhanbarthol, sy'n cynrychioli Sefydliad DPJ yn eu cymunedau ac yn sgwrsio gyda grwpiau, mynychu sioeau a digwyddiadau a mynychu digwyddiadau codi arian a chyflwyniadau. Bydd ambell i Hyrwyddwr Rhanbarthol hefyd yn sôn yn y cyfryngau am eu heriau iechyd meddwl eu hunain, neu am waith Sefydliad DPJ. Ochr yn ochr â'n Hyrwyddwyr Rhanbarthol mae hefyd gennym Fyfyrwyr Hyrwyddwyr, sef bobl ifanc mewn ysgolion neu golegau sydd hefyd yn gwirfoddoli gyda ni.

Mwy am ein Gwirfoddolwyr

Mae'r gwasanaeth Rhannwch Y Baich yn llinell ffôn a thestun gwbl gyfrinachol sydd ar gael 24/7 ac yn cael ei staffio gan dîm ymroddgar o wirfoddolwyr hyfforddedig. Mae'r llinell Rhannwch Y Baich hefyd yn gweithredu gwasnaeth cyfeirio at gwnsela, lle y bydd ein gwirfoddolwyr yn caffael gwybodaeth er mwyn cyfeirio'r mater ymlaen at un o'n cwnselwyr proffesiynol.

Ochr yn ochr â Rhannwch Y Baich, 'rydym hefyd yn rhedeg Lori Hywel Davies, sef prosiect a leolir yn Ne-Orllewin Cymru i ddarparu MOT iechyd galw heibio mewn marchnadoedd da byw a digwyddiadau amaethyddol eraill. Mae hwn yn cael ei gefnogi gan nifer fechan o wirfoddolwyr, ynghyd â nyrs gyflogedig. Cyn bo hir, bydd "Lori Y Gogledd" yn ymuno â hyn, sy'n cwmpasu Gogledd Cymru.

Agwedd arall ar ein gwaith codi ymwybyddiaeth yw ein rhaglen hyfforddi sy'n cynnwys hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl ac hyfforddiant Ymwybyddaieth Profedigaeth a Galar. Mae peth o'r hyfforddiant yma'n cael ei ddarparu gan wirfoddolwyr.

Ynghylch y Rôl

Er mwyn cefnogi'n gwaith gyda'n gwirfoddolwyr, mae Sefydliad DPJ yn chwilio am unigolyn trefnus, hyblyg a brwdfrydig a fydd yn ein helpu i yrru ein helusen yn ei blaen drwy gefnogi, cydgysylltu a datblygu'n gwirfoddolwyr a sicrhau bod gennym bresenoldeb ym mhob digwyddiad allweddol, naill ai gan wirfoddolwyr neu drwy fynychu ei hun os nad oes unrhyw wirfoddolwyr ar gael i wneud hynny.

Teitl y Swydd: Cydlynydd Gwirfoddolwyr a Digwyddiadau

Cyflogir gan: Sefydliad DPJ

Lleoliad: O bell/ o'r cartref neu swyddfa Sefydliad DPJ yng Nghaerfyrddin, ynghyd â theithio ledled Cymru.

Oriau gwaith: 35 awr y wythnos

Cytundeb: Blwyddyn yn y lle cyntaf, gydag estyniad yn ddibynnol ar dderbyn cyllid

Yn atebol i: Rheolwr yr Elusen

Ystod cyflog: £23,000 – £26,000 (yn dibynnu ar brofiad)

Mae'r swydd yn amodol ar wiriad DBS

Disgrifiad y rôl

Diben y rôl newydd hon yw cefnogi, datblygu ac hyrwyddo'r ochr wirfoddol o waith Sefydliad DPJ. Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am recriwtio, hyfforddi a rheoli gwirfoddolwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi yn eu gwaith ac yn cael y gorau o'u gwirfoddoli. Bydd sgiliau pobl a threfnu rhagorol yn allweddol

Bydd y Cydlynydd Gwirfoddolwyr hefyd yn gweithio'n agos gyda staff a rhanddeiliaid i adnabod anghenion gwirfoddoli a chyfleoedd ymgysylltu, cyfrannu at godi arian a rhoi cefnogaeth cyson o ansawdd i'r bobl sy'n cysylltu â Sefydliad DPJ, a chodi ymwybyddiaeth ar draws Cymru. Y disgwyl yw y bydd gwirfoddolwyr yn mynychu digwyddiadau a'ch rôl chi fydd recriwtio i lenwi'r bylchau daearyddol hynny a allai fod gennym.

Bydd hyn yn cynnwys mynychu rhai digwyddiadau codi arian a chodi ymwybyddiaeth, naill ai ochr yn ochr â gwirfoddolwr neu er mwyn cynrychioli'r elusen pan nad oes gwirfoddolwr ar gael i fynychu. Un o'r digwyddiadau y bydd disgwyl ichi fynychu yw'r Sioe Frenhinol Cymru.

Bydd y swydd yn gofyn am y gallu i weithio oriau hyblyg; ar brydiau bydd hi'n hanfodol gweithio gyda'r nos ac ar y penwythnos -os 'rydych yn chwilio am amgylchedd waith rhagweladwy 9-5, nid dyma'r swydd i chi.

Gan fod gofyn am deithio ledled Cymru, mae angen trwydded yrru lawn a mynediad at eich cerbyd eich hun.

Prif Ddyletswyddau

Rheoli Gwirfoddolwyr

Mae gwirfoddolwyr yn ganolog i lwyddiant ein gwaith gyda'r gymuned amaethyddol yng Nghymru; mae recriwtio, cefnogi a datblygu gwirfoddolwyr galluog, abl, empathetig, sy'n medru ymgysylltu ac ymroi yn hanfodol i lwyddiant ein gwaith. Agwedd hanfodol ar y rôl hon yw cefnogaeth a brwdfrydedd gwirfoddolwyr; agwedd bwysicaf y swydd yw cynnal perthnasoedd cryf â phob gwirfoddolwr ledled Cymru.

Mae'r brif agwedd ar y rôl hon yn cynnwys:

- **Datblygu a gweithredu strategaethau i recriwtio gwirfoddolwyr er mwyn cwrdd â gofynion yr Elusen.**
- **Cydgysylltu'r broses o recriwtio gwirfoddolwyr, gan gynnwys hysbysebu rolau, cynnal cyfweliadau a phrosesu ceisiadau.**
- **Rheoli a gweinyddu pob agwedd ar ymgysylltiad gwirfoddolwr gyda'r elusen, gan gynnwys cwblhau'r gwiriadau a'r tyst lythyron perthnasol, cadw cofnodion a chadw bás data.**
- **Rheoli'r rhaglen wirfoddol o ddydd i ddydd, gan gynnwys amserlenni a chydgysylltu gweithgareddau'r gwirfoddolwyr, a chadw cofnodion cywir am y gwirfoddolwyr.**
- **Gweithredu fel prif bwynt cyswllt y gwirfoddolwyr, a chyfathrebu ac ymgysylltu gyda'r elusen.**
- **Trefnu, paratoi a rhannu gwybodaeth gyda'r gwirfoddolwyr er mwyn sicrhau eu bod yn barod i wneud eu gwaith.**

Prif Ddyletswyddau

- Goruchwylio'r gwirfoddolwyr yn eu rolau (Hyrwyddwyr Rhanbarthol yn bennaf), a darparu arweiniad, cefnogaeth ac adnoddau yn ôl y galw er mwyn sicrhau bod profiad gwirfoddolwyr yn bositif a gwobrwyol.
- Datblygu ac hyfforddi gwirfoddolwyr yn eu rolau drwy weithio ochr yn ochr â nhw wrth iddynt gyflwyno gweithgareddau codi ymwybyddiaeth.
- Cefnogi gwirfoddolwyr yn eu rolau fel Hyrwyddwyr Rhanbarthol, hyrwyddo cyfleoedd am oruwchwylio ac ôl-drafod anffurfiol. Mae ein gwirfoddolwyr yn gweithio'n ddi-flino i hyrwyddo ymwybyddiaeth iechyd meddwl ac efallai y byddant, ar achlysuron prin iawn, yn delio â sefyllfaoedd heriol sy'n effeithio'n ddwys arnynt. (serch hynny, y disgwyl yw na fydd gwirfoddolwyr yn darparu unrhyw gefnogaeth wyneb yn wyneb).
- Trefnu cyfarfodydd cyson arlein ac wyneb i wyneb gydag Hyrwyddwyr Rhanbarthol a'r tîm gwirfoddoli ehangach.
- Meithrin diwylliant gwirfoddoli positif a chynhwysol, hyrwyddo ymgysylltu ac ymwneud â gweithgareddau a digwyddiadau.
- Datblygu a gweithredu strategaethau i adnabod a dathlu cyfraniad gwirfoddolwyr, gan gynnwys digwyddiadau gwerthfawrogi'r gwirfoddolwyr a rhaglenni gwobrwyo.

Prif Ddyletswyddau

- Ymgysylltu â'r gwirfoddolwyr i baratoi'r amserlen Rhannwch Y Baich misol, a'i mewnbynnu i'r meddalwedd rheoli shifft.
- Datblygu cyfleoedd i greu portffolio o rolau gwirfoddoli amrywiol o fewn y mudiad.

Digwyddiadau

- Rheoli'r calendr digwyddiadau o ran mynychiad gwirfoddolwyr, er mwyn sicrhau eu bod yn mynychu'r holl ddigwyddiadau yn ôl y disgwyl.
- Sicrhau bod y gwirfoddolwyr wedi derbyn yr wybodaeth angenrheidiol ac wedi'u paratoi ar gyfer pob digwyddiad, a'u bod yn gallu cynrychioli'r elusen hyd eithaf eu gallu. Mewn ambell achos bydd hyn yn golygu hebrwng gwirfoddolwyr i ddigwyddiadau tan eu bod yn meithrin hyder.
- Mynychu rhai digwyddiadau allweddol yr adnabuwyd eu bod yn hanfodol ein bod yn bresennol ynddynt, naill ai oherwydd nad oes unrhyw wirfoddolwyr ar gael neu ein bod wedi penderfynu eu bod yn ddigwyddiadau targed, lle y mae'n rhaid bod staff yn bresennol.
- Trefnu a mynychu digwyddiadau i annog ac hyrwyddo gwirfoddoli gyda Sefydliad DPJ, yn fyw ac yn rithiol.

Prif Ddyletswyddau

Cadw Cofnodion, Cydymffurfio a Thasgau Gweinyddol

- Gweinyddu a rheoli gwirfoddoli o ddydd i ddydd o fewn yr elusen. Gall hyn gynnwys cynnal bás data, cynhyrchu deunydd ac adroddiadau ysgrifenedig, taflenni gwybodaeth, diweddaru'r wefan, monitro'r gyllideb, bwcio a thrafod gyd darparwyr ac ystod o gadw cofnodion manwl.
- Cyfrannu at gynllunio a datblygu trefniadol, gan gynnwys cefnogi datblygu cyfleoedd pellach i wirfoddolwyr.
- Monitro a gwerthuso effeithlonrwydd y rhaglen wirfoddoli, casglu adborth a data i fesur yr effaith ar wirfoddolwyr a'u bodlonrywdd. Paratoi adroddiadau cyson ynghylch gweithgareddau, cyflawniadau, ac heriau'r gwirfoddolwyr ar gyfer Rheolwr yr Elusen a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr.
- Adolygu, datblygu a chynnal polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau i reoli gwirfoddolwyr, yn unol ag arfer orau a gofynion rheolaethol.
- Sicrhau cydymffurfiad gyda'r ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys diogelu a rheoliadau iechyd a diogelwch yn yr holl agweddau ar reoli gwirfoddolwyr.

Prif Ddyletswyddau

Cydweithio o fewn y Tîm

- Ochr yn ochr â Rheolwr yr Elusen, trefnu'r rhaglen oruchwylio ar gyfer gwirfoddolwyr Rhannu'r Baich.
- Gan weithio gyda'r Cydlynydd Tîm, sicrhau presenoldeb mewn sioeau amaethyddol a digwyddiadau eraill, a bod yr adnoddau sydd eu hangen ar gael i'r gwirfoddolwyr.
- Mewn cydweithrediad â'n Swyddog Hyfforddiant, creu a darparu cyfleoedd am hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr newydd a sydd eisoes yn bodoli.
- Mewn cydweithrediad â'r Rheolwr Yr Elusen a chymorth marchnata, creu gwefan, cylchlythyr a chynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol er mwyn hyrwyddo gwirfoddoli ac ymgysylltu gyda'r elusen.

Cynrychioli Sefydliad DPJ

- Yn ôl y galw, gweithredu fel llefarydd ar ran yr elusen a, phan cymerdwy-wyd gwneud hynny, gan gynnwys cysylltu â'r cyfryngau.
- Cynrychioli'r elusen mewn cynadleddau a digwyddiadau ledled Cymru, gan gynnwys mewn sioeau amaethyddol (i gynnwys gosod y stondin a'u ddymchwel).
- Cynrychioli'r elusen yn Sioe Frenhinol Cymru.
- Ar bob adeg, gweithredu'n unol â gwerthoedd yr elusen, a bod yn fodel rôl ar ran yr elusen.

Prif Ddyletswyddau

Dyletswyddau eraill

- Cyfrannu'n weithredol at, ac hyrwyddo, gwaith yr Elusen.
- Gan ein bod yn dîm bychan, o bryd i'w gilydd bydd gofyn ichi ymwneud ag unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill a fydd yn galluogi'r Elusen i gyflawni ei hamcanion.

AM FANYLEB Y PERSON, A WNEWCH CHI SGROLIO I'R DUDALEN NESAF.

Manyleb y Person

	Hanfodol	Dymunol
Gwybodaeth	• Dealltwriaeth o faterion iechyd meddwl. • Dealltwriaeth o gydymffurfio â GDPR. • Ymwybyddiaeth o asesu risg a rheoli risgiau. • Meddu ar ddealltwriaeth dda o faterion diogelu plant ac oedolion, a sut mae ymateb mewn modd effeithiol i ddiogelu. • Dealltwriaeth o, ac ymrwymiad at gyfleoedd cyfartal a materion amrywiaeth o ran polisi ac arfer.	• Dealltwriaeth o atal hunan-laddiad. • Gwybodaeth am, a dealltwriaeth o, amaeth yng Nghymru. • Gwybodaeth am, a dealltwriaeth o, iechyd meddwl a llesiant yn y gweithle.
Sgiliau	• Sgiliau TG ardderchog gan gynnwys y defnydd o Microsoft Office (yn cynnwys Word, Excel a Teams), Zoom a Canva. • Sgiliau Siarad a Chyflwyno yn Gyhoeddus. • Sgiliau cyfathrebu ardderchog. • Sgiliau trefniadol. • Sgiliau ysgrifennu adroddiadau a chadw cofnodion. • Y gallu i gwrdd â, a blaenoriaethu, terfynau amser tynn a thargedau cyflawni.	• Y gallu i ddefnyddio ystod eang o gyfryngau cymdeithasol. • Craffter busnes.
Yr Iaith Gymraeg	• Gwell na gallu sylfaenol yn Gymraeg (h.y. y gallu i gynnal sgwrs syml neu gyflwyno gwybodaeth a baratowyd ymlaen llaw yn Gymraeg).	• Y gallu i ysgrifennu a gweithio drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Manyleb y Person

	Hanfodol	Dymunol
Profiad	• Profiad perthnasol o weithio gyda gwirfoddolwyr yn y Trydydd Sector, gan gynnwys recriwtio, hyfforddi, cefnogi a rheoli gwirfoddolwyr er mwyn cynnal nodau ac amcanion trefniadol. • Profiad o ddarparu hyfforddiant. • Profiad o rwydweithio ac hyrwyddo gwasanaeth. • Profiad o weithio gyda, a chyfathrebu â, phobl o wahanol gefndiroedd (megis ffermwyr, ieuenctid, aelodau'r cyhoedd a mudiadau bach a mawr). • Profiad o weithio o fewn fframwaith o gyfrinachedd a gyda mynediad at ddata sensitif. • Profiad o gydgysylltu tîm.	• Profiad o ddelio ag ymholiadau gan y cyhoedd a chwsmeriaid. • Profiad o weithio ym myd amaeth. • Profiad o reoli cylidebau bychain ar gyfer digwyddiadau neu waith prosiect.
Priodoleddau	• Agwedd hyblyg ac addasadwy at anghenion newidiol y tîm a'r gwasanaeth. • Y gallu i weithio ar eich menter eich hun a threfnu a chynllunio llwyth gwaith o dan bwysau amser. • Yn empathetig a thrugarog, gyda gwir ddiddordeb mewn cefnogi gwirfoddolwyr a sicrhau bod profiad gwirfoddolwyr yn un positif. • Agwedd cadarnhaol, gydweithredol a thîm-ganolog gyda'r gallu i weithio'n effeithiol gyda staff, gwirfoddolwyr, partneriaid a chefnogwyr allanol. • Yn drefnus, gan roi sylw mawr at fanylion.	• Ymroddiad dangosadwy at wneud gwahaniaeth ystyrlon i fywydau pobl sy'n ymwneud ag Amaethyddiaeth Cymru.

Manyleb y Person

	Hanfodol	Dymunol
Priodoleddau	• Uniondeb, gonestrwydd, disgresiwn a phroffesiynoldeb personol. • Yn barchus a chynhwysol, gydag ymroddiad at amrywiaeth, tegwch a chynhwysedd o ran recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr. • Yn agored, yn hyderus a thrugarog. • Yn gallu cyfathrebu'n glir, ar lafar ac yn ysgrifenedig. • Y gallu a'r parodrwydd i deithio ledled Cymru (ac, yn achlysurol, y tu hwnt), gan gynnwys teithio i ardaloedd gwledig ac anghysbell. Mynediad at gerbyd eich hun wedi'i gofrestru ar gyfer defnydd busnes, ac eich bod yn dal trwydded yrru lawn y DU. • Y gallu i aros oddi cartref dros nos pan y cynllunir hynny.	

Sut i wneud cais

I wneud cais, lawrlwythwch y Pecyn Swydd o'n Gwefan neu'r Cyfryngau Cymdeithasol, a llenwch a dychwelwch y Ffurflen Gais a'r Ffurflen Cyfleoedd Cyfartal drwy ebost at kate@thedpjfoundation.co.uk cyn y dyddiad cau.

Dyddiad cau: Dydd Llun, Chwefror 9fed 2026 am 9:30yb
Dyddiad Cyfweliadau Dros Dro: Dydd Sul 15eg Chwefror 2026 a Dydd Llun 16ed Chwefror 2026

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y rôl, cysylltwch â Kate Miles:
kate@thedpjfoundation.co.uk